Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
West Wales Regional Partnership Board

# Cynllun Strategol Gofalwyr Di-dâl Gorllewin Cymru 2025-2030

## Pwy ydyn ni?

Rydyn ni'n grŵp o bartneriaid yng Ngorllewin Cymru sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cynghorau Sir Caerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, y sector gwirfoddol a llais profiadau bywyd go iawn. Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n gwella'r canlyniadau i ofalwyr di-dâl yng Ngorllewin Cymru.

## Beth yw ein gweledigaeth?

Bod Gorllewin Cymru yn rhanbarth lle mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi'n eang am y cyfraniadau hanfodol maen nhw'n eu gwneud i'n cymunedau a'n gwasanaethau.

## Beth yw ein blaenoriaethau?

Fe wnaethon ni edrych ar ddata a gwrando ar lais gofalwyr ledled Gorllewin Cymru a'r rhai sy'n gweithio i gefnogi gofalwyr, a chafodd dwy flaenoriaeth eu nodi.

**Blaenoriaeth 1:** Bod gofalwyr yn weladwy ac yn cael eu gwerthfawrogi

**Blaenoriaeth 2:** Bod gofalwyr yn cael eu cefnogi

## Mae ein hamcanion yn cynnwys:

1. Dathlu a hyrwyddo gwerth gofalwyr di-dâl
2. Cynyddu ymwybyddiaeth sefydliadol o ofalwyr di-dâl
3. Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth gofalwyr
4. Sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir
5. Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael cymorth
6. Cynnig amrywiaeth o wasanaethau i ymateb i anghenion y gofalwyr di-dâl.

## Sut byddwn ni'n cyflawni'r blaenoriaethau a'r nodau?

Bydd Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru yn goruchwylio cyflawni'r cynllun strategol ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i ddangos ei gynnydd.

## Edrychwch ar y cynllun strategol yma:

I weld y cynllun strategol llawn, sganiwch y cod QR neu cliciwch YMA i gael eich ailgyfeirio.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i dderbyn y cynllun strategol trwy e-bost, cysylltwch â ni yn wwrpb@sirgar.gov.uk

## Mewn partneriaeth â:

Cyngor Sir Ceredigion County Council
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board
Pembrokeshire County Council Cyngor Sir Penfro
CGGSG ~ CAVS
CAVO Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion Ceredigion Association of Voluntary Organisations
PAVS